## Hysbysiad o Waith Arwynebu'r Promenâd, Llandrillo yn Rhos

Bydd Griffiths yn dechrau gosod yr asffalt arwynebu terfynol ar hyd Promenâd y Gorllewin, ar hyd y cyffyrdd rhwng Promenâd y Gorllewin a Phromenâd Cayley ar **15fed o Dachwedd 2023.** Disgwylir cwblhau'r cam hwn o'r gwaith dros bythefnos, er bod rhai elfennau o'r gwaith yn dibynnu ar dywydd ffafriol. Mae'r gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod y dydd, er mwyn manteisio ar y golau dydd.

**Diwrnod 1 – dydd Mercher 15eg Tachwedd a dydd Iau 16eg Tachwedd**

Bydd tua 80 metr o amgylch **gyffordd De Promenâd y Gorllewin a Phromenâd Cayley** (pen Bae Colwyn) wedi cau'n llwyr **am un diwrnod rhwng 05:00 ddydd Mercher 15eg Tachwedd a 05:00 dydd Iau 16eg Tachwedd**.

Bydd arwyddion clir yn dynodi gwyriadau wedi'u gosod pan fydd y ffordd ar gau, a byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau mynediad i drigolion Promenâd Cayley, er efallai bydd yna oedi o bryd i'w gilydd - siaradwch gyda'r Marsial er mwyn cale mynediad i'ch tŷ.

**Diwrnodau 2 - 4 dydd Iau 16eg o Dachwedd i ddydd Gwener 17eg o Dachwedd**

**Bydd Promenâd Llandrillo-yn-rhos wedi cau'n llwyr am ddau diwrnod o gyffordd Promenâd y Gorllewin (gyferbyn â Theatr Harlequin) i Erddi Combermere.** Noder, bydd y gorsafoedd bysiau gyferbyn yn parhau ar agor, ond byddant wedi'u hadleoli dros dro, a'u gosod y tu allan i'r man gwaith.

Byddwn hefyd yn ymgymryd â gwaith paentio llinellau yn ystod y gwaith arwynebu, gan gynnwys ar hyd Promenâd Cayley.

**Oriau gwaith yw rhwng 07:30 a 20:00.**

Ymddiheurwn ymlaen llaw am unrhyw anghyfleustra a achosir, a diolch ichi am eich amynedd a'ch dealltwriaeth wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, a byddwn yn gwneud ein gorau i'w gwblhau'n ddiogel, cyn gynted â phosibl. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni drwy e-bost neu dros y ffôn:


oldcolwyncoastaldefence@alungriffiths.co.uk

03300 412 185

**Rich Foxhall,**
**Swyddog Cyswllt Cyhoeddus**